# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 1af o Fawrth 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, , Dylan Edwards, Caredig Jones, Rowland Jones Meic Francis, Richard Davies, John Davies a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU:**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Mawrth a dymunwyd y Cadeirydd Ann Tudor Dydd Gwyl Dewi Hapus i bawb.

**15/ 905**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod Miss Chwefror gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Rowland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

**15/906 - MATERION YN CODI**

1. Trafodwyd y prisiau a derbyniwyd oddi wrth Alex Crowley ar gyfer gosod camerâu CCTV tu allan I Ganolfan yr Hen Ysgol. Roedd 3 x opsiwn gwahanol wedi eu paratoi. Penderfynnwyd gael 2/3 amcangyfrif arall oddi wrth gwmnïoedd lleol cyn gwneud penderfyniad.
2. Nid oes unrhyw ymateb pellach wedi derbyn wrth Gyngor Ceredigion ynglŷn â'r dŵr sy'n crynhoi ar hewl a'r hefyd cyflwr y coed yn Abermad. Phasiwyd i'r clerc cysylltu unwaith eto ynglŷn â hyn.
3. Dywedwyd fod 'rhai' o'r tyllau ar hewl Ffosbompren - Brynchwith wedi eu llenwi erbyn hyn, ond mae lawer iawn o dyllau heb eu trwsio. Phasiwyd I'r clerc ysgrifennu at y Cyngor eto i godi'r pwnc yma eto.
4. Nid yw'r tyllau ar gornel Llidiardau wedi eu trwsio, mi fydd y clerc yn anfon ail lythyr am y mater yma.
5. Gan nad oes ymateb wedi eu derbyn oddi wrth Gyngor Sir ynglŷn â ffens y rheilffordd, awgrymwyd falle fydd yn syniad i ysgrifennu at Sustrans yn uniongyrchol.

**15/907 - LLYTHYRON**

1. Llythr oddi wrth y Ddolen yn rhoi diolch am y rhodd o £100 oddi wrth y cyngor cymuned.
2. Adroddiad Blynyddol 2016/17 Panel Annibynnol Cymru.
3. Cadarnhad aelodaeth Un Llais Cymru 2016/17. Ofynnwyd I'r cyngor enwebu cynghorydd i'w gynrychioli yng nghyfarfodydd chwarterol….Penderfynwyd enwebu Cyng. Meic Francis. Roedd pawb yn gytûn.
4. Llythyr wrth Gyngor Sir a manylion 'Spare Seat Provision Home to School/College'. Nid yw'r Cyngor yn cyd-fynd gyda'r syniad yma. Phasiwyd I'r clerc i ysgrifennu ynol at y Cyngor ynglŷn â hyn.
5. Llythyr oddiwrth 'Tower Mint Ltd' a manylion 'commemorative medal for schools and councils'….rhodiwyd y manylion ar hysbysfwrdd y ganolfan.

6. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.

**15/908– ARIANNOL**

1. Anfoneb ar gyfer llogi'r Neuadd. Cynigwydd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray.
2. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Mawrth; £113.47. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.
3. Llythyr oddi wrth Ganolfan Gymunedol Llanilar yn ofyn am gymorth ariannol tuag at gostiai gwasanaeth rhyngrwyd yn y Ganolfan. Penderfynnwyd gyfrannu £200. Roedd pawb yn gytûn. Mi wnaeth y Cyng. Rowland Jones a Meic Francis datgan diddordeb.
4. Llythyron wrth sefydliadau gwahanol yn ofyn am gymorth/rhodd ariannol oddi wrth y Cyngor Cymuned. Ar ôl drafod pob un cais, penderfynwyd rhoi rhodd o £150 i Glwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion, £50 Cruse Bereavement Care Ceredigion Branch a £50 Cyngor am Bopeth Ceredigion. Roedd pawb yn gytûn.

**15/909 – CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw gais newydd wedi eu derbyn.

E-bost oddiwrth Swyddog Cynllunio Cyngor Sir yn cynghori for cais A151010 - Haul Y Bore wedi eu tynnu'n ôl.

**15/910 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Waneth y Cyng. John Davies dwyn sylw'r cyngor at gyflwr yr hewl heibio Castle Hill. Phasiwyd I'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir ynglŷn â hyn.
2. Wnaeth aelod o'r cyhoedd cynghori'r Cyngor fod tractor wedi rhedeg dros y Cennyn Pedr sydd wedi eu plannu yn Bentrellyn, wrth dorri'r sietyn. Mae hyn yn anffodus. Phasiwyd I'r clerc cysylltu.
3. Nodwyd fod y Cyngor am roi cefnogaeth i Ysgol Gynradd Llanilar ynglŷn â cholled athro/athrawes. Mae hyn yn golled fawr i'r ysgol. Cofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y cyngor sir i ddangos eu cefnogaeth.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.30yh